

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyrol 159

Rhif 1

Ionawr 1, 2026

50c.

Ymgyrch y Pum Peth Personol – gwneud gwahaniaeth

Tybed faint o ddewisiadau gwahanol byddwch chi'n eu gwneud o ddydd i ddydd? Nifer eitha' mawr, dybiwn i; o beth i'w fwya a'i wisgo i benderfynu sut byddwch chi'n teithio i rywle, a beth yw'r tymheredd cywir i'w osod ar y rheolydd er mwyn gwresogi'r tŷ.

Tybed beth yw ein cymhellion wrth wneud y dewisiadau hyn? Fyddwn ni'n canolbwyntio'n syml ar beth sy'n rhoi'r pleser mwya' i ni, neu sy'n fwya' cyfleus i ni? Neu a fyddwn ni'n edrych ar y darlun ehangach ac yn ystyried beth allai fod yn llesol i eraill ac i'n byd?

Rheol Euraid

Pan holwyd Iesu am y gorchymyn pwysicaf, fe roddodd 'caru cymydog' ochr yn ochr â charu Duw, ac mae'n gwbl glir yn y Testament Newydd bod galwad i bob un ohonon ninnau garu ein cymydog fel ni ein hunain. Gall hynny ymddangos yn dasg anferth (ac amhosibl efallai) wrth feddwl am yr argyfyngau mae ein byd yn eu hwynebu ar hyn o bryd, ond rhaid i ni beidio â cholli ffydd, fe all Duw ein defnyddio ni, ac os bydd nifer sylweddol ohonom yn penderfynu cymryd camau tebyg, gall gweithredoedd bychain gael effaith fawr.

Dyna ergyd ymgyrch y pum peth personol – mae'n tynnu sylw at agweddau ar

fywyd lle gall pawb ohonon ni wneud dewisiadau sy'n ymwybodol ofalgar – yn rhoi lles pobl eraill o flaen ein cyfleustra a'n cysur ein hunain, fel ein bod yn ymrwymo o'r newydd i garu ein cymydog fel ni ein hunain.

Adnoddau

Yn fuan iawn, bydd pecyn pwrpasol yn eich cyrraedd, gyda deunyddiau addas i'ch arwain trwy adrannau'r ymgyrch. Bydd yn cynnwys adnoddau i'ch helpu i lunio oedfaon pwrpasol



Blwyddyn Newydd

Blwyddyn newydd dda i holl ddarllenwyr *Y Tyst*. Gweddiwn y bydd 2026 yn flwyddyn ffyniannus i waith Teyrnas Dduw yma yng Nghymru ac ar hyd a lled y byd.

O doed dy deyrnas, nefol Dad,
yw'n gweddi daer ar ran pob gwlad;
dyfodiad hon i galon dyn
a ddwg genhedloedd byd yn un.

T. Elfyn Jones



ar y thema, a syniadau ar gyfer cofnodi eich datblygiad fel cynulleidfya ar hyd y llwybr hwn. All neb ohonon ni bellach wadu bod rhaid i ni, os ydyn ni'n cymryd ein ffydd Gristnogol o ddifri, sefyll yn gadarn ar faterion megis her yr amgylchedd a'r perygl mae hynny'n ei achosi i gynifer o'n brodyr a'n chwiorydd ar draws y byd.

Efallai bod newid rhywfaint ar ein dewisiadau siopa, osgoi prynu dillad newydd, neu droi tymheredd y gwres i lawr un radd yn ymddangos yn bethau digon bach a dibwys, ond y gwir amdani yw bod pob dewis gofalgwr yn cyfri, ac maen nhw'n gallu datblygu a lluosogi fel ein bod ni'n raddol yn newid ein meddylfryd, ac yn awtomatig yn meddwl am eraill yn hytrach na gwneud penderfyniadau dim ond er ein lles ein hunain.

Mae fideos byr i gyd-fynd â phob adran, wedi'u lleisio gan blant rhai o'n heglwys, a'r un yw'r cwestiwn bob amser – 'Wyt ti'n barod i dderbyn yr her?' Gobeithio'n fawr y bydd pawb ohonon ni'n fodlon ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwnnw yn 2026.

Dr Fiona Gannon

Ar ran gweithgor amgylcheddol
Undeb yr Annibynwyr

Dydd Iau mewn du

Mae Cyngor Eglwysi'r Byd yn ein hannog i sefyll yn erbyn trais (rape and violence) drwy ddangos ein lliwiau, yn llythrennol.



Ym mhob gwlad, mae trais ar sail rhywedd yn realiti trasig. Mae'r trais hwn yn aml yn gudd, ac mae dioddefwyr yn aml yn dawel, gan ofni stigma a thrais pellach. Mae gennym ni bob un ohonom gyfrifoldeb i siarad yn erbyn trais, i sicrhau bod menywod a dynion, bechgyn a merched, yn ddiogel rhag treisio a thrais mewn cartrefi, ysgolion, gwaith, strydoedd – ym mhob man yn ein cymdeithas. Mae hyn yn broblem real yma yng Nghymru heddiw, a thros y byd hefyd.

Mae'r ymgyrch yn syml ond yn drawiadol. **Gwisgwch ddu ar ddydd Iau.** Bob dydd Iau. Dyna'r oll. Gallwch wisgo bathodyn i ddatgan eich bod chi'n rhan o'r mudiad bydeang sy'n gwrthsefyll agweddau ac arferion sy'n caniatáu treisio a thrais. Dangoswch eich parch at unigolion sy'n wydn a chryf yn wyneb anghyfiawnder a thrais. Anogwch eraill i ymuno â chi. Gyda'n gilydd gallwn ddangos nad yw hyn yn dderbyniol a bod angen newid pethau er gwell.

Yn aml, defnyddiwyd du gyda chynodiadau hiliol negyddol, ond yn yr ymgyrch hon, defnyddir du fel lliw cadarnhaol sy'n dangos gwrthsafiad a gwydnwch. Rhannwch eich lluniau ohonoch chi ac eraill yn eich du gyda 'Dydd Iau mewn Du' ar X, Facebook ac Instagram, gan ddefnyddio'r hashnodau #DyddIaumewnDu #ThursdaysinBlack a #WCC!

Diolch i'r Tyst am flwyddyn o gymorth a chyswllt

Wrth edrych yn ôl ar flwyddyn arall, hoffwn gymryd eiliad fel bugail i ddiolch yn fawr i'r *Tyst* am fy nghadw'n brysur ac am roi llwyfan mor werthfawr i ni fel eglwysi. Mae'n ffrainc gallu rhannu ein gweithgareddau a'n bywyd fel teulu eglwysig gyda'n teulu annibynnol ehangach ledled Cymru.

Er nad yw'r mwyafrif o'n haelodau yn gallu darllen Cymraeg yn rhugl yn Saron, rwy'n parhau i gyfrannu oherwydd fy mod yn gweld gwerth y cyfryngau hyn – maent yn fy annog fel bugail, ac yn fy helpu i rannu pwy ydym fel cymuned. Mae'r adborth rwy'n ei gael bob tro yn fy atgoffa o bwysigrwydd parhau i ysgrifennu!

Yma mae lluniau o'n gweithgareddau dros y Nadolig yn Saron Crynant – o'n bore coffi gyda Siôn Corn i'n harddangosfa geni y tu allan i'r capel. Mae digwyddiadau fel hyn nid yn unig yn dod â llawenydd i'n haelodau ond hefyd yn rhoi cyfle i ni rannu neges Nadolig o obaith a heddwch â'n cymuned ehangach.

Pe bai pob un ohonom yn anfon ychydig yn fwy o gynnwys i'r *Tyst* yn 2026, pwy a wŷr? Efallai y byddai'n gam arall tuag at sicrhau ei ddyfodol hirdymor. Mae'r papur yn adnodd pwysig i'n Hundeb ac i'r eglwysi lleol – ac mae'n haeddu ein cefnogaeth.

Hoffwn hefyd ddiolch yn arbennig i'r Undeb am y papur dwyieithog, *Dyma'r Undeb/Union Matters* sy'n dod â llawenydd i'n heglwys. Mae'r papur hwn yn pontio'r bwlch ieithyddol ac yn sicrhau bod pawb yn teimlo'n rhan o'r hyn sy'n digwydd ar lefel genedlaethol. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymdrechion hyn yn fawr iawn i gynnwys pawb.

Felly, diolch i'r *Tyst*, diolch i'r Undeb, ac edrychwn ymlaen at flwyddyn newydd o rannu, cysylltu ac adeiladu ein cymunedau gyda'n gilydd.

Rhys Locke

Cadeirydd Cyfundeb
Gorllewin Morgannwg

Newyddion o Geredigion

Mae darllenwyr *Y Tyst* siŵr o fod yn ymwybodol o fodolaeth a'r rhan bwysig mae Eisteddfod Gadeiriol Capel Bryngwenith ger Castell Newydd Emlyn yn ei wneud bob Pasg. Yn dilyn ymddeoliad Jillian Jones, trysorydd yr Eisteddfod, teimlodd y gweinidog ag aelodau capel Bryngwenith y dylai Jillian gael arwydd bach o ddiolchgarwch am ei gwaith da dros y blynedd diwethaf. Felly ar Sul cymuned olaf y flwyddyn diolchwyd iddi yn anrhydeddus iawn.



Jillian Jones a'r Parchg Carys Ann



*Gruffydd a Tudur Davies,
Capel y Wig, Llangrannog*

Gwahoddwyd aelodau Capel y Wig i gymryd rhan yng nghystadleuaeth addurno ffenestr ar gyfer gwasanaeth y Nadolig yn eglwys Llangrannog yn ystod mis Rhagfyr. Cafwyd hwyl a mwynhad gan ddau sydd yn ffyddlon tu hwnt i'r gwasanaethau yng Nghapel y Wig sef Tudur a'i frawd Gruffydd Davies, meibion diacon Capel y Wig, sef Buddug a'i phriod Geraint, Gilfach, Blaencelyn. Bu Heledd Clayton (wyres y diweddar Barchg Edwin Pryce Jones, Llwyncelyn) yn cynorthwyo hefyd ynghyd â rhai aelodau eraill.

Carolau Heddwch



Daeth tua phump ar hugain o boblynghyd o flaen giatiau RAF y Fali bnawn ddydd Mercher, 10 Rhagfyr, i ganu carolau ac i herio'r ffaith bod gan gwmni arfau mwyaf Israel, sef Elbit Systems, ganolfan yno. Hefyd, gwrthwynebiad bod gan yr RAF rôl flaenllaw yn cefnogi'r hil-laddiad sy'n parhau i ddigwydd ar Lain Gasa ac ar y Lan Orllewinol.

Roedd y brotest wedi cael ei threfnu yn dilyn rhai digwyddiadau diweddar pan fu'r heddlu'n aflonyddu arnom wrth i ni ymarfer ein hawl i sefyll a chodi llais dros heddwch. Fel mae'n digwydd, chawsom ni ddim gwrthwynebiad gan yr heddlu yn y Fali. (Roeddent wedi dod i sicrhau na fyddai unrhyw wrth-brotest yn tarfu arnom, medden nhw.)

Yr unig wrth-brotest gawsom ni oedd pedair o awyrennau'r RAF yn gwneud cymaint o sŵn ag oedd yn bosib iddyn nhw ei wneud, gan godi a glanio a chylchu



uwch ein pennau gydol yr amser y buom yno, a hynny ar yr union adeg yr oeddem wedi cytuno i ddechrau canu. Wnaeth yr heddlu ddim ymyrryd i'w hatal nhw, wrth gwrs!

Nid canu geiriau traddodiadol y carolau wnaethom ni chwaith. Mae nifer ohonom yn ei chael hi'n anodd canu am dawelwch a sancteiddrwydd glân y preseb, a ninnau'n cofio i lesu gael ei eni ym myd Herod. Diolch i Gôr Gobaith, Aberystwyth, am gael geiriau amgen i'w defnyddio. Efallai y byddwch chithau'n falch o'u derbyn a'u defnyddio hefyd:

I orwedd mewn pabell

I orwedd mewn pabell mewn peryg dirfawr
gan fomiau llu Israel yn syrthio i'r llawr,
rhieni a'u baban yn ofni y bedd
a'r byd mewn tawelwch yn cysgu mewn hedd.

Dim stop ar y lladd ers y cadoediad chwaith
dros bum cant 'di marw ers hynny, mae'n ffaith.
Y milwyr yn saethu, a'r llwgu o hyd,
arweinwyr byd grymus yn gwylio yn fud.

Mae milwyr cas Herod yn brwydro o hyd
gan 'nafu plant bychain, diniwed i gyd.
Rhaid sefyll gyda'n gilydd, a gweiddi fel un,
'Cadoediad a heddwch i holl deulu dyn'.

O Deued Cyfiawnder

O deuoch, ffyddloniaid, pawb a gâr gyfiawnder,
O sylwch, O sylwch ar Balesteina.
Gwelwch y wlad a'i phlant sydd dan feddiannaeth.
O dewch, nac anwybyddwn; O dewch, nac anwybyddwn;
O dewch, nac anwybyddwn, cyhoeddwn i'r byd.

Canwn, genhedloedd, canwn mewn digofaint;
Cefnogwn ni holl bobl Palestaina.
Canwn, 'Cyfiawnder, rhyddid rhag gorthrymder'.
O dewch, nac anwybyddwn; O dewch, nac anwybyddwn;
O dewch, nac anwybyddwn, cyhoeddwn i'r byd.

Mae criw'r wynnos yng Nghaernarfon wedi gosod preseb o flaen Capel y Maes eto eleni. Nid baban yn y rwbel, fel gwnaethom ni'r llynedd a'r flwyddyn cynt – ond pabell seml a geiriau amgen 'I orwedd mewn preseb' o'i blaen. Dyma rywbeth arall y gallech ei efelychu hefyd, efallai.

Tra mae 'Tommy Robinson' yn ceisio hawlio'r Nadolig i'r asgell dde eithafol, mae angen i ni wneud popeth fedrwn ni i rymuso'r neges o heddwch, gobaith a llawenydd y Nadolig hwn. Mae Duw, Emaniwel, yn dod i ganol llanast llwyr ein byd – hyd yn oed heddiw!

(Anna Jane Evans, gyda diolch i wefan cristnogaeth21)

Merched ym mywyd Cymru yn yr ugeinfed ganrif

Cyfraniad merched i fywyd cyhoeddus Cymru'r ugeinfed ganrif yw'r thema sy'n clymu ynghyd ddwy brif ysgrif rhifyn Ionawr 2026 o'r *Traethodydd*. Mae Llion Wigley yn trafod y lle canolog a chwaraewyd gan ferched ym mywyd Plaid Cymru yn ystod ei blyneddau ffurfiannol, tra mae Siân Rhiannon Williams yn ein goleuo ynghylch bywyd, gwaith a gyrfa'r addysgydd o Gaerfyrddin, Elizabeth Phillips Hughes.

'Adnabod Deg Amgen' yw teitl yr ysgrif gyntaf, sy'n ymdrin â chyfraniad menywod i ddatblygiad Plaid Genedlaethol Cymru, c.1925–50. Cawn ddysgu am rai fel Mallt Williams, Llinos Roberts, Tegwen Clee, Efelyn Williams, Mai Williams a'i chwaer Priscie ac eraill. Mae'r rhain, i bob pwrpas, wedi eu 'hysgrifennu allan o'r stori' er bod enwau fel Kate Roberts a Cassie Davies yn gyfarwydd i lawer. Fel mae'n digwydd, mae cyfrol ddiweddar Arwel Vittle a Gwen Angharad Gruffudd, *Dros Gymru'n Gwlad: Hanes Sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru*, a adolygir yn y rhifyn hwn gan Richard Owen, yn rhoi sylw manwl i waith arloesol Mai Williams yn arbennig, ac eto mae'n dda cael gwybod mwy am y merched 'coll' hyn.

Enw anghyfarwydd i lawer yw Elizabeth Phillips Hughes, testun ysgrif afaelgar Siân Rhiannon Williams. Yn enedigol o Gaerfyrddin ac yn chwaer i'r pregethwr Wesle enwog Hugh Price Hughes, hi oedd prifathrawes gyntaf Coleg Hyfforddi Merched Caer-grawnt, a bu'n hynod flaengar yn ei dydd wrth geisio sicrhau cyfle a chyfartaledd i ferched ym maes addysg uwch. 'Merch Myrddin' oedd ei henw barddol, ac wedi gadael

Ionawr 2026

Y Traethodydd



Cyffes Aled Jones Williams

Hefyd: Llion Wigley ar ferched cynnar y Plaid a Siân Rhiannon ar Elizabeth Phillips Hughes

Caer-grawnt aeth i fyw i'r Barri gan ymroi i'r mudiadau cymdeithasol oedd yn ffynnu yno ac yng nghylch Caerdydd yn negawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif. Meddai Siân Rhiannon: 'Cafodd fywyd amrywiol a diddorol, ond fel cynifer o fenywod a gafodd ddylanwad arhosol yn lleol ac yn genedlaethol, aeth Elizabeth Hughes yn angof i lawer yng Nghymru. Mae'n bryd rhoi'r sylw haeddiannol iddi'. Gwych o beth yw cael gwneud hynny trwy gyfrwng yr ysgrif bwysig hon.

Enw cyfarwydd i ddarllenwyr *Y Traethodydd* yw Aled Jones Williams, nid yn gymaint fel dramodydd neu nofelydd ond fel bardd. Cerddi byrion, cryno, epigramatig sydd ganddo. Yn ôl yr Athro M. Wynn Thomas, mae'n fardd 'sy'n arbenigo mewn cynhyrchu

'haikus' ysbrydol gwefreiddiol o dreiddgar. Efe, yn ddi-os, yw bardd "crefyddol" mawr ein cyfnod petrusgar, ymchwilgar ni'. Fel radical, yn wir fel drylliwr delwau, y caiff ei adnabod orau, efallai, ond dengys ei gyfrol hunangofiannol ddiweddar *Reit Rownd: Cyffes Aled Jones Williams* fod cryn newid wedi digwydd yn ei hanes. 'Cerdded y Cylch Cyfan: llwybr hirfaith Aled Jones Williams' yw teitl ysgrif adolygiad gan y Golygydd, sy'n crynhoi cynnwys y gyfrol hynod hon. Yn ei dyb ef, mae hon yn un o gyfrolau crefyddol mwyaf trawiadol y blyneddau diwethaf. 'Gwledd sydd yma i'r meddwl ac i'r dychymyg,' meddai. Felly, anogwn bawb i ddarllen yr adolygiad ac, yn bwysicach na hynny, y gyfrol sy'n sail iddo.

Beirdd y rhifyn hwn yw Mary Burdett-Jones a D. Ben Rees. Dylid crybwyll hefyd ysgrif fer y llyfrbryf Gerald Morgan, gwaith ditectif ar y gyfrol *Car-*

ŵr y Cymry, ysgrif sydd hefyd yn werth ei darllen. Ffyddloniaid y cylchgrawn yw'r tri awdur hyn, ac mae'n dda cael cynnwys eu gwaith.


Yn ôl ein harfer, anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish (rhian.melhuish@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

Diolch am 70 mlynedd!

Dymunwn yn dda i'r Parchedig Ddr John Tudno Williams, wrth iddo roi'r gorau i bregethu, ac yntau wedi treulio 70 mlynedd yn cyhoeddi'r Gair mewn capeli ar hyd a lled Cymru – a thu hwnt. I glywed y cyfweiliad a wnaeth John ar *Bwrw Golwg* ar 14 Rhagfyr, ewch i wefan [BBC Radio Sounds](https://www.bbc.com/sounds); mae'r cyfweiliad yn dechrau tua 19 munud o ddechrau'r rhaglen. Ceir hefyd grynoded o'r sgwrs mewn erthygl ar [Cymru Fyw](https://www.cymru.fyw).

Dymunwn yn dda iddo yntau ac Ina, ei briod, i'r dyfodol.


Ond er ei fod yn rhoi gorau i bregethu, nid yw ei brysurddeb yn pallu gan ei fod ar hyn o bryd yn cwblhau gwaith ar ei gyfrol ddiweddaraf, sef *Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg*. Gobeithir lansio'r gyfrol, sydd wedi derbyn nawdd a chefnogaeth gan y Llyfrgell Genedlaethol, yn ystod gwanwyn 2026.



Llyfr Newydd! *Justice Song: the Story of Christian Aid*

I nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 oed yn ddiweddar, cyhoeddwyd cyfrol newydd arbennig. Mae *Justice Song* yn trafod taith anhygoel Cymorth Cristnogol, o'r gwreiddiau ar ôl yr Ail Ryfel Byd i'w ddatblygiad fel grym blaenllaw yn y frwydr yn erbyn tloedi ac anghyfiawnder. Fe'i hysgrifennwyd gan Michael Taylor, a wasanaethodd fel Cyfarwyddwr Cymorth Cristnogol o 1985 i 1997 ac mae'n cynnwys lluniau trawiadol a straeon arloesol.

Mae'r llyfr ar gael i'w brynu o wefan SPCK neu gyhoeddwyd ar-lein eraill: <https://spckpublishing.co.uk/justice-song>



S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 4 Ionawr, am 7:30yh
Blwyddyn Newydd Dda

Nia Roberts sy'n croesawu'r flwyddyn newydd o arfordir dramatig Ynys Lawd yn Sir Fôn. Cawn fwynhau môr o ganu o gymanfa gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2026 yng Nghapel Hyfrydle, Caergybi. A chawn berfformiadau disglair gan Steffan Lloyd Owen a Chôr Aelwyd yr Ynys.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 4 Ionawr, am 7:30yb a 2:00yp

Amrywiaeth o emynau o Gymanfa'r Brithdir yng nghwmni Trystan Lewis

Oedfa Radio Cymru

Sul, 4 Ionawr, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Olwen Lintern-Smyth, Llanelwy

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Gofalaeth Bro Nant Conwy

Taith llawn hwyl a phwmpenni

Mwynhaodd dros 180 o blant a rhieni ysgolion Sul Gofalaeth Bro Nant Conwy ddiwrnod gwych o hwyl yr hydref yn fferm Monarafon ar gyfer trip blynyddol yr ysgolion Sul. Roedd y diwrnod yn llawn cyffro, chwerthin, a digonedd o bwmpenni wrth i'r plant archwilio'r fferm, cymryd rhan mewn gweithgareddau tymhorol, a dathlu ysbryd y gymuned. Roedd yn galonogol gweld cymaint o deuluoedd yn dod ynghyd i wneud y diwrnod yn un arbennig. Mae digwyddiadau fel hyn yn ein hatgoffa o'r llawenydd sy'n deillio o gymuned, cysylltiad, a phrofiadau a rennir o fewn gweithgareddau'r Eglwys. Diolch enfawr i fferm Monarafon ac i bawb a helpodd i drefnu'r daith – rydym eisoes yn edrych ymlaen at yr antur nesaf!

Diwrnod Hwyl

Ar ddydd Sadwrn, 11 Tachwedd cynhaliwyd Diwrnod Hwyl ar gyfer plant ysgolion Sul, Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy. Trefnwyd y diwrnod gan y Parchg Owain Davies ar ran Pwyllgor Plant ac Ieuencid yr Henaduriaeth. Daeth nifer dda o blant blwyddyn ysgol 3 i 6 yno gan gynnwys plant



ysgolion Sul Undebol Hebron, o ofalaeth y Parchg Helen Wyn Jones ac ysgolion Sul Cylch Llanrwst o ofalaeth y Parchg Owain Davies. Dechreuodd y diwrnod wrth ddal y bws o Glasdir, Llanrwst i Goleg y Bala. Cafwyd croeso cynnes a byrlymus iawn gan aelodau staff y coleg ynghyd â'u harweinydd a'r gweithiwr ieuencid, Siôn Morris. Trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau hwyliog gyda neges yr Efengyl yn ganolbwynt i'r cyfan. Cafwyd storïau o'r Beibl gan gynnwys hanes y dyn cyfoethog, chwaraeon, crefft a ffynnon siocled, a'r cyfan am ddim. Mae ein diolch i'r Henaduriaeth am ariannu'r diwrnod. Cafwyd cinio blasus a llawer mwy i'w fwyta! Roedd yn gyfle gwych i'r plant gymysgu a dod i adnabod ei gilydd. Yn ystod y dydd roedd y plant yn dditectifs yn chwilio am gliwiau i ddod o hyd i adnod Ioan 3:16 o'r Beibl. Dangoswyd fideo o Goleg y Bala i'r plant er mwyn codi ymwybyddiaeth ac awydd i'r plant ddod yno i aros a derbyn mwy o brofiadau arbennig. Roedd yn amlwg bod y plant wedi mwynhau a dysgu mwy am gynnwys y Beibl, a hyn mewn ffordd hawdd iddynt ddeall. Y gobaith yw bod hadau wedi eu hau yn y plant ar gyfer y dyfodol a'r ôl iddynt dderbyn diwrnod bendithiol iawn yng nghwmni ei gilydd. Mae ein diolch yn fawr i staff y coleg am eu croeso ac am drefnu'r holl weithgareddau.

Clwb CIC Hadau Bach

Braf oedd gweld gymaint o deuluoedd yn mynychu ein Clwb CIC Hadau Bach cyntaf bore dydd Sadwrn 22 Tachwedd. Mae Gofalaeth Bro Nant Conwy wedi cychwyn y sesiwn newydd yma i blant ifanc a'u rhieni er mwyn rhoi cyfle iddynt gymdeithasu, chwarae a chanu gydag Alaw Tecwyn Sion. Cafodd y plant lawer o hwyl yn chwarae, lliwio a chanu. Diolch arbennig i Alaw am arwain y canu hwyliog. Bydd y sesiwn yma yn rhedeg unwaith y mis yng Nghanolfan Hamdden Dyffryn Conwy. Edrychwn ymlaen at weld pawb unwaith eto yn y flwyddyn newydd.



GOHEBIAETH

Llŷn ac Eifionydd

Gyda thristwch y clywsom y newyddion am farwolaeth y Parchg Glenys Jones ar ôl cyfnod byr o salwch. Bu ei ffyddlondeb a'i theymgarwch i'r Arglwydd Iesu Grist yn fawr a bu yn fugail dygn a ffrind twymgalon i'w haelodau yn ei dwy eglwys, Penlan, Pwllheli a Soar, Nefyn. Y mae bwlch enfawr wedi ei adael ar ei hôl.

Penderfynodd eglwys Penlan y byddent yn gwneud trefniadau dros dro yn sgil eu colled er mwyn parhau â'u gweithgareddau. Felly dyma anfon manylion atoch rhag ofn y bydd angen cysylltu.

Parchg Geraint S. Hughes, Ysgrifennydd Gohebol (dros dro).

Erw Las, 80 Lon Ceredigion, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5RA.
01758 701700 gerainthys@gmail.com

Mrs Bethan Davies, Ysgrifennydd Cyhoeddiadau.

Arwel, 19 Allt Salem, Pwllheli Gwynedd LL53 5EA. 07812 405814

Gyda diolch yn ddiffuant,

Arwyn O Hughes
Ysgrifennydd Cyfundeb
Llŷn ac Eifionydd

Diolchgarwch

Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch yn eglwys Hafan Ifan ar 9 Tachwedd a oedd o dan ofal Ffermwyr Ifanc Rowen, Llanrwst ac Ysbyty Ifan. Mae gwasanaeth o ddiolchgarwch fel hwn yn adlewyrchu cryfder cymunedol ac undod rhwng clybiau ffermwyr ifanc yr ardal. Diolch i arweinwyr y clybiau am eu cymorth gyda'r trefnu ac i'r bobl ifanc am eu hymroddiad. Diolch arbennig i Elin Angharad a fu'n cyfeilio yn ystod y noson.

Mae'n hyfryd gweld pobl ifanc yn cymryd cyfrifoldeb, yn rhannu eu doniau, ac yn creu awyrgylch cartrefol sy'n llawn bendith.

Owain Davies



Golygyddol

Raggedy Elf

Wel, dyna ni mae'r sbloets Nadoligaidd wedi dirwyn i ben unwaith eto a ninnau wedi camu i mewn i 2026. Gawsoch chi Nadolig buddiol a llawen? Pa ddylanwad arhosol mae'r ŵyl wedi ei gael arnoch? Beth ddywedodd Duw wrthyh yn ystod tymor yr Adfent?

Mae'n bwysig ein bod fel Cristnogion yn gwahaniaethu rhwng y rhialtwch disylwedd a'r gwirioneddau pwysig sydd ynghlwm yn yr ŵyl. Rhwng y straeon tylwyth teg a'r datguddiad dwyfol. Mae llawer iawn o atodiadau i dymor y Nadolig sy'n sbort diniwed cyn belled â'u bod yn cael eu cadw dan reolaeth. Ond y peth pwysig yw ein bod yn cael gafael ar y gwirioneddau mawr sydd ynghlwm yng ngeni'r Meseia Iesu. Gwirioneddau sy'n sylfaen i'r ffydd Gristnogol, sy'n rhoi sicrwydd inni wrth gamu ymlaen i'r flwyddyn newydd. Ac ar ben hynny gwirioneddau sy'n cynnig gobaith i fydd sy'n cael ei rwygo gan anobaith, rhyfel ac anghyfiawnder.

Ysgol Sul Pendref

Mae gen i gof plentyn o fod ym mharti Nadolig yr ysgol Sul yn festri fechan capel mawr Pendref, Bangor. Roedd cyffro a chynnwrf trydanol wrth inni fwyta ein brechdanau banana a'n jeli amryliw. Yn flynyddol caem stori trwy sribed lluniau llonydd am Raggedy Elf. Roedd y ddefod hon fel hen draddodiad oedd wedi ei drosglwyddo i lawr trwy'r cenedlaethau. Ond gydag ymddangosiad y corrach (Raggedy) gwyddom fod yr amser yn agosáu. Roedd sŵn prepian plant yn cynyddu fel ei fod yn fyddarol a theils y to yn dirgrynu. Yna, dechreuwyd canu. 'Pwy sy'n dŵad dros y bryn, yn ddistaw ddistaw bach?' Clywsom gloch a gwyddom ei fod ef wedi cyrraedd, o'r diwedd. A chyda gair addfwyn o groeso gan y Parchg John Gwilym Jones, a bonillefau o gymeradwyaeth gan y plant bochgoch gosodai ei sach ar y llawr a dechrau rhannu ei roddion i ni.

Ond y flwyddyn honno roedd rhywbeth yn wahanol. Wrth iddo alw'n henwau bob yn un ac un, a'm calon yn curo fel injan ddyrnu, – rhag ofn ei fod wedi fy anghofio – roedd rhywbeth cyfarwydd yn ei oslef a'i arddull. Ac yna fe'm tarodd fel morthwyl lwmp. Roedd gan Siôn Corn yr un llais â Dyfnallt Morgan, un o'r diaconiaid. Chwalwyd fy niniweidrwydd bachgennaidd. Golygai hynny un o ddau beth, un ai fod gan D. Morgan efaill o'r enw Siôn Corn, neu fod D. Morgan yn smalio bod yn Siôn Corn. Ar y diwrnod hwnnw dysgais wers hallt nad oedd rhai

pethau ond addurniadau arwynebol ym miri'r Nadolig.

Teyrnas Dduw

Neges fawr y Nadolig yw bod Duw yn ein caru ni yn eithriadol fel dynoliaeth a'i fod wedi dod yn un ohonom yn Iesu. Mae'n ein caru ni cymaint fel bod Iesu wedi marw trosom i'n hachub, atgyfodi gan goncro marwolaeth a daeth a Theyrnas Duw a'i blaenoriaethau i'n plith. Mae pwyslais Ei deyrnas i'w weld yn glir yn hanes y geni. Daeth Iesu yn dlawd i'n byd gan uniaethu â'r difreintiedig ac nid â'r awdurdodau grymus. Daeth yma nid i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu eraill. Dyma ffordd Duw o weithredu sy'n gwbl groes i drachwant y byd anghrediniol am gyfoeth, grym ac awdurdod. Fel hyn mae'r Arglwydd yn gweithredu heddiw. Fel y dywed cân Mair:

⁴⁹ Mae Duw, yr Un Cryf, wedi gwneud pethau mawr i mi –

Mae ei enw mor sanctaidd!

⁵⁰ Mae bob amser yn trugarhau wrth y rhai sy'n ymostwng iddo.

⁵¹ Mae wedi defnyddio i rym i wneud pethau rhyfeddol! –

Mae wedi gyrru y rhai balch ar chwâl.

⁵² Mae wedi cymryd eu hawdurdod oddi ar lywodraethwyr,

ac anrhyddedu'r bobl hynny sy'n 'neb'.

⁵³ Mae wedi rhoi digonedd o fwyd da i'r newynog,

ac anfon y bobl gyfoethog i ffwrdd heb ddim!

Cadwch yr addurniadau, y goleuadau a'r siwt Siôn Corn yn y giarat, ond cadwch y gwirioneddau Cristnogol yn eich calon tra byddwch, gan eu byw. Ar gychwyn 2026 fe gydiwn ac fe rannwn y gwirioneddau ysgytwol hyn gan droedio yn hyderus fel eglwysi yng Nghymru. Y mae Duw yn cyflawni ei waith heddiw, er ein tlodi ysbrydol. Ac efallai, efallai, wrth inni sylweddoli ein tlodi a'n diffyg grym i newid pethau ohonom ein hunain y bydd yr Arglwydd yn ein bendithio fwyfwy eleni gan ddangos eto ei fod Ef yn llywodraethu'n rasol rymus.

'Yna dywedodd wrthyf, "Dyma air yr ARGLWYDD at Sorobabel: 'Nid trwy lu ac nid trwy nerth, ond trwy fy ysbryd,' medd ARGLWYDD y Llaoedd.'" (Sechareia 4:6)

Blwyddyn newydd dda.

Alun Tudur

Hoffem ddiolch i Tom Evans am ei gyfraniadau gwerthfawr i'r golofn Barn Annibynnol yn ystod y flwyddyn a fu. Y mae nawr am gael hoe o'r cyfrifoldeb. Hefyd diolch i'r criw sy'n gwirfoddoli yn gyson i gyfrannu erthygl wythnosol i'r Tyst. Gol.

Taith o gwmpas eglwys hynafol

Nid i eglwys San Pedr yn y Fatican yr aeth tua 25 o aelodau Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin ar bererindod, ond i'r eglwys o'r un enw yng nghanol tre Caerfyrddin. Cawsant eu tywys gan Alun Lenny o gwmpas yr addoldy hynafol i glywed hanes rhai o'r bobol a'r digwyddiadau nodedig sy'n gysylltiedig â'r lle.

Fel sawl eglwys arall sydd â mynwent gron o'i chwmpas, tybir bod San Pedr ar safle cylch cerrig paganaidd oedd yno cyn i'r Rhufeiniaid ddod i sefydlu'r dref a'r gaer. Yn union y tu fewn i brif ddrws yr eglwys, wrth fôn y tŵr uchel gwyngalchog sy'n dyddio o'r 15fed ganrif, gwelir crair sydd dros fil o flynyddoedd yn hŷn na hynny, sef darn mawr o garreg goch a gafodd ei naddu'n allor neu'n bedestal Rhufeinig



Mawrion yr oesoedd

Credir mai dyma'r eglwys fwyaf yn Esgobaeth Tŷ Ddewi, yn mesur dros 50 metr o'r drws i'r allor, gyda lle i gynulleidfda o 700. Mae'r cyfeiriad cyntaf at San Pedr yn y 12fed ganrif, tua'r un adeg â sefydlu'r castell Normanaidd yn y dre. Ac er mai bwrdeistref Seisnig oedd Caerfyrddin bryd hynny, mae enwau pobl fel Richard ap John ac Amian ap Llewelyn ymhlith yr offeiriaid cynnar. Ar hyd y muriau mae 80 o gofebau i fawrion lleol, yn dyddio nôl 400 mlynedd. Yn eu plith mae un i John Jones, a etholwyd yn aelod seneddol ym 1821 i olynu Syr Thomas Picton, a laddwyd ym mrwydr Waterloo. Yn wleidydd radical, cafodd ei alw'n 'Jones yr halen' am wrthwynebu'r dreth ar halen. Lle helbulus fu Caerfyrddin erioed mewn etholiadau, a phan gafodd Jones ei ail-ethol ym 1831 fe wnaeth un o'r dyrfa ar sgwâr y dref ei anafu trwy daflu carreg a'i tarodd ar ei ben! Roedd John Jones yn byw ym mhlasty Ystrad ar gyrion Caerfyrddin, a thybir bod pentref Treioan (Johnstown) yn dwyn ei enw.

Yr organ a llys yr esgob

Mae'r organ yn un nodedig. Cafodd ei

parhad ar y dudalen gefn

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Taith o gwmpas eglwys hynafol – parhad



gomisiynu gan y brenin Siôr III ar gyfer castell Windsor, ond am resymau na wyddom, cafodd ei brynu trwy gyfraniadau personol a'i osod yn San Pedr ym 1796. Y tu ôl i'r organ mae'r llys esgobol. Yno ym 1555, yn ystod teyrnasiad y Frenhines Babyddol Mari Tudur (sef 'Mari Waedlyd'), cafodd Dr Robert Ferrar, Esgob Tŷ Ddewi, ei ddedfrydu i farwolaeth am wrthod gwadu ei ffydd Brotestannaidd, ac yna'i losgi'n fyw ar y sgwâr tu allan i borth castell Caerfyrddin. O dan lawr y llys mae blwch plwm yn cynnwys penglog – y cyfan sy'n weddill o gorff Syr Richard Steele, a fu farw ym 1729. Ystyrir Steel yn 'dad y cylchgrawn modern' gan iddo fod yn flaenllaw yn sefydlu'r *Tatler*, y *Spectator* a'r *Guardian*. O flaen y ddarlennfa yn yr eglwys mae'r gadair gerfiedig ysblennydd ac uchel sydd ar gyfer maer Caerfyrddin mewn gwasanaethau dinesig. Pan oeddwn i'n faer, prin fod fy nhraed yn cyrraedd y llawr. Wn i ddim sut mae'r maer presennol, y *petite Heledd* ap Gwynfor, yn ymdopi!



Y dyn laddodd brenin Lloegr?


Mewn man blaenllaw yn yr eglwys mae beddrod trawiadol Rhys ap Thomas o Ddinefwr, noddwr y beirdd a'r eisteddfod, uchelwr a milwr o fri wnaeth chwarae ran flaenllaw yn hanes Cymru a Phrydain. Yn ei ddrama *Richard III*, mae

Shakespeare yn sôn am 'Rice ap Thomas, with a valiant crew' yn ymuno â byddin Harri Tudur (gafodd ei eni yng nghastell Penfro ar ôl i'w dad farw yng nghastell Caerfyrddin), oedd â'i fryd ar gipio coron Lloegr ym 1485. Cannoedd lawer o filwyr o Sir Gâr oedd y 'valiant crew' ac ym mrwydr Bosworth fe laddwyd Richard III, yn ôl traddodiad gan Rhys ei hun. Coronwyd Harri'n frenin; fe wnaeth ei fab Harri VIII dorri'n cyswllt â'r Pab trwy sefydlu Eglwys Loegr; a'i ferch yntau, y frenhines Elizabeth orchymynnodd gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg – gweithred wnaeth sicrhau parhad ein hiaith hyd at heddiw.

Arlunydd 'y Crist Du.'

Ffenestr liw fodern yw'r un fwyaf trawiadol yn eglwys San Pedr. Cafodd 'The Tree of Life' ei chreu gan John Petts o Lansteffan i goffau'r meddyg teulu lleol Dr Anne Nest Mary Crane, a fu farw yn 1982. Yng ngwesty cyfagos Y Llwyn Iorwg mae ffenestr liw fawr arall gan Petts sy'n cofnodi mai yn yr ardd yno y cafodd yr Orsedd ei chynnal am y tro cyntaf yng Nghymru gan Iolo Morganwg. Ond rhaid mai creadigaeth enwocaf John

Petts yw ffenestr 'Y Crist Du' a welir mewn capel yn Birmingham, Alabama. Ar ôl i fom gan y Ku Klux Klan ladd pedair merch fach ddu mewn ysgol Sul a chwalu ffenestri'r capel ym 1963, cafodd Petts ei gomisiynu i greu'r ffenestr ar ôl i bobl Cymru gasglu'r arian i dalu am y gwaith.



Gwahoddiad

Os yw hyn wedi codi awydd arnoch i fynd ar bererindod i Gaerfyrddin, mae croeso i chi gysylltu gydag: alunlenny@hotmail.co.uk neu 07817 519039. Yn ogystal ag ymweld ag eglwys San Pedr, byddai croeso i chi ymuno mewn oedfa yng nghapel Y Priorddy, sydd i lawr y stryd o'r eglwys ar safle priorddy St Teulyddog, lle luniwyd Llyfr Du Caerfyrddin; neu mewn cwrdd yng nghapel hanesyddol Heol Awst, lle cyfarfu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am y tro cyntaf yn 1872; a hefyd i gael eich tywys o gwmpas hen Lys y Goron ar sgwâr y dref, lle dedfrydwyd rhai o 'Ferched Beca' ym 1845, a lle cynhaliwyd y cyfrif i ethol Gwynfor Evans yn aelod seneddol ym 1966. Mae digon o ddewis o lefydd bwyta yn y dre, gan gynnwys Y Llwyn Iorwg lle gwelir ffenestr liwgar John Petts a gomisiynwyd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin, 1974.

Alun Lenny